Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

Cynllun Strategol 2025-2030

Cynnwys

Nodau elusennol 3
Y Weledigaeth 3
Datganiad Cenhadaeth 3
Y cyd-destun presennol 3
Lle hoffem fod yn 2030 4
Amcanion Strategol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) 5
Monitro ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol 8

Nodau elusennol

Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) wedi'i sefydlu, er budd y cyhoedd, i hybu a gwella'r broses o warchod a diogelu treftadaeth naturiol a diwylliannol Cymru, eu rheoli'n gynaliadwy, a'u mwynhau mewn modd tawel a chyfrifol.

Y Weledigaeth

Amgylchedd ffyniannus yng Nghymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol[1]

Datganiad Cenhadaeth

Ein cenhadaeth yw i rwydwaith WEL gael ei gydnabod am arbenigedd a chyngor ein haelodau, ac iddo fod yn gyfrwng dylanwadol ar gyfer newid mewn perthynas â llunio polisi, deddfwriaeth ac ymarfer amgylcheddol yng Nghymru.

Y cyd-destun presennol

Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, mae WEL wedi gweithredu trwy bandemig, a digwyddiadau byd-eang sylweddol, sydd wedi arwain at anawsterau economaidd parhaus ledled y DU. Canlyniad hyn yw, yn gynyddol, fod yna ddiffyg adnoddau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus allweddol, gan gynnwys rheoleiddwyr amgylcheddol Cymru. Mae wedi mynd yn fwy anodd dod o hyd i gyllid ar gyfer gwaith amgylcheddol ers i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae sefydliadau amgylcheddol wedi gorfod torri costau a staff er mwyn gallu parhau i gyflawni eu cenhadaeth. Mae'r amgylchedd polisi presennol yn golygu bod yn rhaid i ni weithio'n gyflymach, gan ymateb i derfynau amser cynyddol fyrrach, a hynny'n aml gyda llai o bobl ar gael ar draws y rhwydwaith i weithio ar faterion allweddol sy'n wynebu amgylchedd Cymru. Mae gan nifer o aelod-sefydliadau WEL staff sy'n gorfod cwmpasu polisi mewn sawl gwlad yn y DU, ac mae Cymru'n colli ei harbenigwyr ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae WEL, gyda chymorth ei aelodau, wedi cynyddu ei incwm craidd o danysgrifiadau aelodau trwy newid i fodel sy'n olrhain incwm aelodau mewn modd tecach ac sy'n sicrhau lefel incwm fwy cynaliadwy ar gyfer WEL. Ehangwyd y cymhwystra ar gyfer bod yn aelod o WEL i gynnwys unrhyw sefydliad elusennol sydd â chyfansoddiad llawn ac sy'n ymwneud â gwaith polisi

[1] At ddibenion dehongli, mae "amgylchedd" yn golygu amgylcheddau tirol, morol a dŵr croyw. Mae'n cynnwys amgylcheddau trefol a gwledig ac ardaloedd o bwysigrwydd ar gyfer treftadaeth naturiol, tirwedd a mynediad cyhoeddus.

amgylcheddol Cymru. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau lleol os ydynt am weithio ar lefel Cymru mewn perthynas â pholisi. Rydym yn dal i ddibynnu ar gyllid grant ar gyfer y rhan helaeth o'n costau ond rydym wedi bod yn gwneud cynnydd da o ran datblygu ac arallgyfeirio ein cyllidwyr grantiau.

Mae'r amgylchedd polisi wedi parhau i newid yn sylweddol ers 2020, ac mae symudiad tuag at weithio ar-lein yn bennaf wedi golygu bod ein grŵp polisi 'nawr yn denu ystod llawer ehangach o gyfranogwyr. Mae datblygiad dulliau ar-lein o weithio hefyd wedi ei gwneud yn haws cydweithio â Chysylltiadau Amgylchedd eraill y DU a chynghreiriau eraill megis Climate Cymru a'r Glymblaid Werdd. Mae amgylchedd polisi Cymru yn parhau i ymwahanu oddi wrth rannau eraill o'r DU, ond mae yna hefyd bwysau cynyddol i ymgysylltu â deddfwriaeth newydd ar lefel y DU sydd â goblygiadau ac effeithiau sy'n berthnasol i Gymru. Mae hyn yn rhoi pwysau pellach ar adnoddau cyfyngedig.

Bydd y pum mlynedd nesaf yn golygu heriau digynsail wrth i ni symud tuag at begynu cynyddol o ran disgwrs wleidyddol a'r posibilrwydd o newidiadau sylweddol i gyfansoddiad Llywodraeth Cymru. Er i sawl darn o ddeddfwriaeth amgylcheddol newydd gael eu pasio yn y Senedd yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, mae angen i'r rhain 'nawr gael eu gweithredu a'u gorfodi'n effeithiol. Bydd angen i rwydwaith WEL weithio gyda grŵp mwy o 96 o Aelodau o'r Senedd (ASau), gyda nifer o'r rheiny'n gwbl newydd i'r Senedd. Bydd angen i ni fod yn gydnerth, yn uchelgeisiol ac yn barod i addasu os ydym am ymgysylltu â'r penderfynwyr newydd hyn a llwyddo i lunio achos dros sicrhau cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argyfwng natur ac argyfwng yr amgylchedd.

Lle hoffem fod yn 2030

Erbyn 2030, nod WEL yw bod â ffrwd ariannu gynaliadwy ac amrywiol, gydag incwm anghyfyngedig a all gefnogi cyflenwad canolog o staff o ddim llai na phedwar aelod cyfwerth ag amser llawn, i ddarparu craidd sefydlog er mwyn i'r rhwydwaith roi mwy o gapasiti a gwell gwasanaethau i'n haelodau. Bydd, Llywodraeth Cymru, Aelodau o'r Senedd, cyrff cyhoeddus a phartneriaid allanol yn dal i weld gwerth arbenigedd ein haelodau, a byddwn yn parhau i ddenu buddsoddiad gan amrywiaeth o ymddiriedolaethau a sefydliadau.

Rydym am i'n haelodau deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, a'u bod yn hyderus bod WEL yn parhau i ddarparu llais uchelgeisiol a chynhwysol ar gyfer amgylchedd Cymru, llais sy'n llywio cynnydd o ran polisi a deddfwriaeth amgylcheddol. Byddwn y cael ein cydnabod gan benderfynwyr, a bydd gennym ran

allweddol i'w chwarae wrth hyrwyddo blaenoriaethau ein haelodau i Lywodraeth Cymru, gwleidyddion a phenderfynwyr eraill. Mae WEL yn adnabyddus, a bydd partneriaid allanol a rhanddeiliaid yn deall ein rôl yn well.

Amcanion Strategol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs)

Amcan 1: Llais uchelgeisiol ar gyfer yr amgylchedd

Bydd WEL yn mwyhau effaith llais ein polisi trwy ddarparu tystiolaeth hygred a dylanwadol ac argymhellion arbenigol i benderfynwyr, tystiolaeth sy'n arwain at newid cadarnhaol ar gyfer amgylchedd Cymru, yn ogystal ag er budd ein cymunedau, y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs)

- **Mae aelodau WEL yn gwerthfawrogi ein gwaith eirioli ar y cyd, sy'n arwain at newid cadarnhaol ar gyfer yr amgylchedd:** Mae llais WEL yn unedig ond hefyd yn ymgorffori'r cymhlethdod a'r arlliw angenrheidiol i osgoi i'r neges gael ei gwanhau. Byddwn yn adeiladu ar ffyrdd o sicrhau consensws wrth lunio prosesau cynhwysol ar gyfer rheoli safbwyntiau amrywiol a chymhleth ein haelodau, fel bo pawb yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u parchu. Mae ein gwaith eiriolaeth ar y cyd yn ddylanwadol o ran llunio polisi a deddfwriaeth amgylcheddol effeithiol. Caiff hyn ei fonitro mewn arolwg blynyddol o'r aelodau a thrwy wybodaeth a gesglir mewn sesiynau ôl-drafodaeth Gweithgorau ar ddiwedd ymgyrchoedd penodol neu waith penodol ar ddeddfwriaeth. Byddwn yn olrhain newidiadau i bolisi a deddfwriaeth sy'n deillio o'n gwaith eiriolaeth, ac o argymhellion Pwyllgorau'r Senedd a fabwysiedir yn unol â gofynion WEL.
- **Mae WEL yn weladwy i benderfynwyr a phartneriaid, ac yn cael ei werthfawrogi ganddynt:** Bydd penderfynwyr a phartneriaid yn gwybod pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud, a bydd arnynt eisiau cysylltu ac ymgysylltu â ni. Byddwn yn cynnal perthnasoedd da â chysylltiadau yn y cyfryngau yng Nghymru ac yn gallu hyrwyddo ein safbwyntiau ar y cyd yn y cyfryngau, gyda chyfranogiad da. Byddwn yn datblygu strategaeth gynhwysol, effeithiol o ran cyfathrebu a'r cyfryngau a, thrwy fonitro'r cyfryngau, byddwn yn dangos bod ein negeseuon yn cael effaith. Byddwn hefyd yn cofnodi'r modd y mae'r rhwydwaith yn ymwneud â grwpiau rhanddeiliaid allweddol, ynghyd â'i fynediad at Weinidogion a phenderfynwyr allweddol eraill.

Amcan 2: Rhwydwaith cydlynol sy'n darparu arbenigedd a chymorth ar y cyd

Mae'r nod hwn yn canolbwyntio ar y mecanweithiau mewnol ar gyfer cynhyrchiant a chydweithrediad yn ein rhwydwaith o aelodau. Byddwn yn gwella capasiti ar y cyd ein haelodau trwy barhau i feithrin perthnasoedd cadarn, seiliedig ar ymddiriedaeth, gan gydnabod bod gennym ystod eang o aelodau o ran eu maint, eu blaenoriaethau polisi, a'u gallu i ddylanwadu ar bolisi. Byddwn yn datblygu prosesau ac offer newydd i fynd i'r afael â'r her o ddwyn ynghyd farn arbenigol amrywiol. Byddwn yn cyflawni hyn trwy hwyluso cydweithrediad a darparu gwybodaeth a chyfleoedd hyfforddi perthnasol ac o ansawdd uchel a fydd yn galluogi cydweithio da rhwng aelod-sefydliadau. Bydd ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Amrywiaeth yn sicrhau bod ein holl weithdrefnau'n gynhwysol, yn gefnogol, ac yn adlewyrchu anghenion ein haelodau.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs)

- **Tegwch, cyfranogiad ac ymddiriedaeth canfyddedig:** Gan ganolbwyntio ar ymddiriedaeth a dideueddrwydd, byddwn yn blaenoriaethu perthnasoedd cryf a dealltwriaeth gydfuddiannol ac yn sicrhau bod ein haelodau'n ystyried bod staff a phrosesau WEL yn ddiduedd, yn deg ac yn ddibynadwy. Gan ganolbwyntio ar weithdrefnau, byddwn yn ymrwymo i ffyrdd cynhwysol ac ar y cyd o weithio sy'n diffinio'r modd y mae aelodau a staff yn rheoli cydweithio a'r broses gwneud penderfyniadau.
- **Deialog a safbwynt cynhwysol:** Gan ganolbwyntio ar barch, byddwn yn hwyluso deialog barchus a strwythuredig sy'n sicrhau bod pob safbwynt (polisi, ymchwil, yn y maes, ac ati) yn cael gwrandawiad teg ac yn cael ei integreiddio i'n safbwyntiau terfynol.
- **Adeiladu capasiti teg:** Gan ganolbwyntio ar gymorth wedi'i dargedu, byddwn yn sicrhau bod hyfforddiant a chymorth mewn perthynas â chapasiti yn cael eu darparu mewn modd cynhwysol ac effeithiol i'r aelodau y mae arnynt eu hangen fwyaf, gan helpu elusennau bach i "wneud mwy gyda llai". Yn ystod 12 mis cyntaf cyfnod y Cynllun Strategol newydd, byddwn yn cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddi'r aelodau, gan ganolbwyntio ar sgiliau sy'n berthnasol i weithio mewn rhwydwaith, fel y gallwn nodi a chytuno ar hyfforddiant arbenigol lle bo angen y cymorth fwyaf. Byddwn yn monitro boddhad yr aelodau â'r hyfforddiant.

Amcan 3: Rhwydwaith cydnerth, amrywiol a hyfyw

I gyflawni ein gweledigaeth a'n cenhadaeth, bydd angen i ni sicrhau cydnerthedd ar draws nifer o feysydd. Bydd angen i ni gynnal sefydlogrwydd ariannol a sicrhau bod ein staff a'n Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cyfrannu gwybodaeth a phrofiad eang, yn ogystal ag adlewyrchu amrywiaeth y sector amgylcheddol a chymunedau yng Nghymru.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs)

- **Rhwydwaith sy'n ariannol hyfyw, gydag amrywiaeth o ffrydiau ariannu:** Rhaid i'r WEL gynnal digon o gyllid anghyfyngedig i gefnogi tîm craidd o ddim llai na phedwar staff cyfwerth ag amser llawn er mwyn darparu gwasanaeth da i'w aelodau. Ein nod yw tyfu ein tîm staff yn gyson erbyn 2030 i ddarparu mwy o gymorth polisi, eiriolaeth a chyfathrebu i'r rhwydwaith. Byddwn yn dal cronfa ariannol wrth gefn am 12-18 mis i sicrhau y gall WEL barhau i weithredu yn ystod cyfnodau pan fo grantiau'n brin. Byddwn hefyd yn hyrwyddo'r angen i ddenu mwy o gyllid i Gymru i gefnogi gwaith ein aelod-sefydliadau wrth fynd i'r afael â'r argyfwng natur a hinsawdd.
- **Arweinyddiaeth a chynrychiolaeth gynhwysol:** Adeiladu ar y gynrychiolaeth bresennol o unigolion ar fwrdd yr ymddiriedolwyr a'r tîm rheoli, a chynyddu hyn erbyn diwedd 2030. Yn hytrach na gosod cwota, ein ffocws a'n nod yw cynnwys y rhai a all gynnig sgiliau, profiadau a safbwyntiau amrywiol. Bydd hyn yn ein helpu i feithrin proses gwneud penderfyniadau fwy cadarn, arloesol, sy'n ymwybodol o risg ac yn cael ei gyrru gan ddata, a sicrhau, mewn modd mwy effeithiol, fod ein heiriolaeth yn mynd i'r afael â heriau croestoriadol cyfiawnder amgylcheddol a thegwch cymdeithasol.
- **Ymgysylltu ag aelodaeth amrywiol**: Er mwyn sicrhau bod ein haelodaeth hefyd yn amrywiol, byddwn yn sicrhau bod ein prosesau ymgeisio am aelodaeth yn deg. Bydd ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Amrywiaeth yn nodi sut y byddwn yn datblygu ein prosesau mewnol i sicrhau bod aelodau'n cael eu cefnogi yn eu gwaith gyda ni, a bod unrhyw rwystrau i gyfranogiad yn cael eu datrys. Byddwn yn mesur iechyd y rhwydwaith, gan gynnwys boddhad yr aelodau a hanes cadw aelodau, a pha sefydliadau newydd yr ydym yn eu denu. Bydd hyn yn cael ei fesur trwy gydweithrediad aelodau mewn ymgyrchoedd, arolygon blynyddol o werthoedd aelodau, cyfranogiad aelodau mewn cyfarfodydd WEL, ac adolygiadau ansoddol gyda phartneriaid allanol.

Monitro ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Uchod, rydym wedi nodi ffyrdd y gallwn fonitro ein dangosyddion perfformiad allweddol. Y prif ffyrdd y byddwn yn mesur ein llwyddiant yw:

1. **Adolygiad chwarterol yr Ymddiriedolwyr o amcanestyniadau ariannol:** bydd hyn yn cynnwys monitro amrywiaeth y cyllid a gyflawnwyd.
2. **Arolwg blynyddol yr aelodau:** bydd hyn yn gofyn am farn ar yr ystod o wasanaethau a ddarperir gan WEL , pa mor gynhwysol a chydweithredol yw ein prosesau, a pha mor dda y mae aelodau'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i gyflawni eu blaenoriaethau polisi.
3. **Adolygiad ansoddol o'r aelodau a'r rhanddeiliaid:** cyfweliadau manwl i'w cynnal gan ymchwilydd annibynnol bob tair blynedd, ag aelodau, penderfynwyr, a rhanddeiliaid a phartneriaid allanol.
4. **Arolwg data aelodau:** bob tair blynedd, i gofnodi lefelau aelodaeth a staffio, ynghyd ag arwynebedd y tir a berchnogir ac a reolir ledled y rhwydwaith.
5. **Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol WEL:** adrodd ariannol a chrynodeb o bolisi WEL a'i waith eiriolaeth a'i effaith, ein heffaith o ran cyfathrebu a'r cyfryngau, buddion mewn nwyddau, a chynrychiolaeth ar grwpiau rhanddeiliaid.
6. **Archwiliad demograffeg a sgiliau blynyddol ymhlith aelodau'r bwrdd a'r tîm rheoli:** i olrhain cynnydd tuag at gynrychiolaeth ehangach. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad ansoddol o'r amryfal sgiliau, safbwyntiau a phrofiadau sydd gan ein staff a'n hymddiriedolwyr.
7. **Defnyddio argymhellion polisi WEL mewn polisi a deddfwriaeth:** trwy gofnodi newidiadau uniongyrchol ac argymhellion WEL yn adroddiadau Pwyllgorau'r Senedd.